

# Gwerthfawrogi, Ymgysylltu a Chyflawni: Cynnal system iechyd a gofal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Galwadau Conffederasiwn GIG Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021


THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

# GIG Cymru

Mae GIG Cymru yn cyflwyno gwasanaethau trwy saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth GIG ac un Awdurdod Iechyd Arbennig.

## Byrddau Iechyd Lleol

Mae'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn cael eu cyflwyno ynghyd â gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau deintyddol, optegol, fferyllol ac iechyd meddwl. Maent hefyd yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau mewn partneriaeth, gan wella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol, hybu llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws eu poblogaeth.




### Y saith Bwrdd Iechyd Lleol yw:

1. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
2. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
3. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
4. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
5. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
6. **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**
7. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

## Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae tair Ymddiriedolaeth GIG gyda ffocws Cymru gyfan.

- Ymddiriedolaeth **GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru** yw asiantaeth genedlaethol iechyd y cyhoedd sydd yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau ar gyfer pobl Cymru.
- Ymddiriedolaeth **GIG Prifysgol Felindre** sydd yn darparu gwasanaeth canser arbenigol ar draws De a Chanolbarth Cymru trwy Ganolfan Ganser Felindre a gwasanaeth cenedlaethol trwy Wasanaeth Gwaed Cymru.
- Ymddiriedolaeth **GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** sydd yn darparu ystod o wasanaethau argyfwng a rhai nad ydynt yn argyfwng y tu allan i ysbytai.

## Awdurdod Iechyd Arbennig

- Mae gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** rôl flaenllaw yn addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd ar draws Cymru.

# Cyflwyniad

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r unig gorff aelodaeth sydd yn cynrychioli'r holl sefydliadau sydd yn ffurfio'r GIG yng Nghymru: y saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth y GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cyn etholiadau'r Senedd yn 2021, rydym wedi gofyn am farn ein haelodau ac wedi nodi eu gweledigaeth ar gyfer y system iechyd a gofal yng Nghymru.  Mae'r briff hwn yn cyflwyno ein galwadau ar gyfer yr etholiad a'r ffordd y gall pleidiau gwleidyddol, etholwyr a'n partneriaid ddod ynghyd i fynd i'r afael â'r prif heriau y mae'r system gofal ac iechyd yn eu hwynebu a chyflawni'r weledigaeth a gyflwynir gan arweinwyr y GIG.  Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni werthfawrogi'r gweithlu, ymgysylltu'r cyhoedd a chyflwyno gwasanaethau ar draws y system.

Fel rhan o ddatblygu ein galwadau, cynhaliwyd arolwg ym mis Rhagfyr 2019 gyda'n haelodau – arweinwyr y GIG ar draws Cymru, yn cynnwys Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Gweithredol – i nodi'r hyn sydd yn bwysig iddyn nhw.

Cyn pandemig COVID-19 hyd yn oed, roedd yn amlwg y byddai iechyd a gofal cymdeithasol yn destun canolog cyn etholiad y Senedd. Fel yr amlygir yn Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, mae'r system iechyd a gofal yng Nghymru, fel gweddill y DU, yn wynebu cryn dipyn o heriau.  Yn arolwg yr etholiad, nododd aelodau'r prif heriau canlynol ar gyfer y GIG yng Nghymru:

- Recriwtio a chadw'r gweithlu;
- Diffyg integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol;
- Yr angen i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio;
- Cyllid a phwysau cost; a
- Heriau'n ymwneud â chyflymder newid ac ailddylunio gwasanaethau.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae nifer o alluogwyr ac atebion y mae arweinwyr y GIG yn eu cyflwyno er mwyn trawsnewid gwasanaethau, yn cynnwys:

- Parhau i weithredu gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol fel yr argymhellir yn yr Adolygiad Seneddol;
- Gweithio'n gydweithredol ar draws ffiniau sefydliadol;
- Cyflwyno arweinyddiaeth drugarog ar draws pob sector;
- Datblygu canlyniadau poblogaeth a llesiant ar draws iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cael cynllun ariannol hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cyflawni cymorth clinigol a chyhoeddus ar gyfer newid; a
- Sefydlu trefniadau llywodraethu i wella'r broses o wneud penderfyniadau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae llawer o'r atebion hyn eisoes wedi dod i'r amlwg o'r ymateb i bandemig COVID-19. Mae COVID-19 wedi newid y GIG a gofal cymdeithasol, gan gyflwyno trawsnewid cyflym mewn cyfnod o bwysau aruthrol a heriau personol a phroffesiynol.  Bydd y pandemig yn cael effaith sylweddol ar ddyfodol y boblogaeth, cymdeithas a gwasanaethau. Yn ogystal, dyma fydd etholiad cyntaf y Senedd gyda'r DU allan o'r Undeb Ewropeaidd, fydd yn nodi perthynas ryngwladol a thirwedd wleidyddol wahanol iawn.

Yn y cyfnod cyn etholiad y Senedd, mae'n bwysig cael trafodaeth adeiladol yn ymwneud â'r atebion sydd yn angenrheidiol i weithredu'r weledigaeth ar gyfer y system iechyd a gofal ymhellach. Rydym yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr i chwarae rôl arwain a sicrhau bod y drafodaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar ansawdd, ataliaeth, gwasanaethau cymunedol a chydweithredu ar draws system gyfan.

Mae pawb yng Nghymru eisiau system iechyd a gofal gynaliadwy a hyfyw sydd yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd Conffederasiwn GIG Cymru yn parhau i gynrychioli safbwyntiau ein haelodau yn y drafodaeth ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl bleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr.

# Ein Gweledigaeth

## Dylai system gofal iechyd sydd yn addas ar gyfer y dyfodol...

**Fuddsoddi** mewn cefnogi a chynnal iechyd, llesiant ac annibyniaeth mewn cymunedau

**Darparu gofal sydd yn canolbwyntio ar y person** sydd yn dosturiol ac yn gydlynus ar draws sectorau

**Cefnogi, grymuso a llywio** pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a ffurfio eu gofal eu hunain o amgylch eu hanghenion, gan sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau

**Gwrando ar** brofiadau cleifion, eu gofalwyr a staff, dysgu oddi wrthynt a bod yn atebol i'r cyhoedd

**Gwella ansawdd a diogelwch yn barhaus**, ymgysylltu â galluogi staff i weithio mewn ffyrdd newydd a chroesawu arloesedd a thechnolegau newydd

**Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd pobl**, dileu gwahaniaethau a gwerthfawrogi iechyd meddwl a chorfforol yn gyfartal

Meddu ar **weithlu ymgysylltiedig, wedi ei ysgogi ac sy'n cael ei werthfawrogi**, gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i fodloni anghenion pobl Cymru

Creu **gwerth cymdeithasol mewn cymunedau lleol** i ddarparu gwelliannau mewn iechyd, yr amgylchedd a ffyniant

**Defnyddio adnoddau yn gyfrifol**, yn effeithlon ac yn deg er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy

**Bod yn allblyg**, gan weithio gyda'r byd ehangach i sicrhau partneriaethau economaidd, buddsoddiad, ymchwil a hyrwyddo Cymru ar draws y byd

# Cyflawni

I gyflawni ein gweledigaeth, dylai maniffesto pob Plaid Wleidyddol ar gyfer  Etholiadau'r Senedd ganolbwyntio ar:

**Hybu iechyd**: Ymrwymo i wella iechyd y boblogaeth gan weithio ar draws sectorau, yn canolbwyntio ar ataliaeth a chefnogi ymddygiad ac amgylcheddau iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf

**Cyhoeddi cynllun gweithredu**: Cyflwyno modelau gofal cydgysylltiedig yn seiliedig ar anghenion unigolion o fewn chwe mis cyntaf Llywodraeth newydd

**Y sgwrs fawr**: Gweithredu rhaglen genedlaethol a strategaeth ymgysylltu ar draws y Llywodraeth i gynorthwyo'r cyhoedd i fyw bywydau iachach, cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant, rheoli eu cyflyrau a defnyddio gwasanaethau yn gyfrifol

**Gofal cymdeithasol**: Cyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol yn seiliedig ar angen

**Gwasanaethau cyhoeddus integredig**: Cyflwyno arolygu ar y cyd, cyfundrefnau rheoliadol a threfniadau llywodraethu ar y cyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol a chenedlaethol i lywio newid ar draws sectorau

**Mesur perfformiad**: Cyflwyno mesurau perfformiad sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar ansawdd, ataliaeth, gwasanaethau cymunedol a chydweithrediaeth system gyfan

**Cynllunio'r gweithlu**: Darparu gweithlu aml-broffesiynol, wedi ei alluogi'n ddigidol, sydd wedi ei ysgogi, yn ymgysylltiedig ac yn cael ei werthfawrogi, gyda'i lesiant ei hun yn flaenoriaeth ac yn cael ei hybu

**Gweledigaeth a rennir ar gyfer digidol a thechnoleg**: Cyflwyno technoleg newydd ac arloesedd i gefnogi cynhwysiant, newid gwasanaeth a gwella ansawdd data ar draws y system

**Fframwaith adnoddau**: Datblygu cynllun buddsoddi 5 mlynedd o ran newid gwasanaeth i ail-lunio ystadau ac isadeiledd y GIG, gan eu gwneud yn fwy cynaliadwy, lleihau allyriadau carbon a chynyddu asedau cyhoeddus

**Sector cyhoeddus ar gyfer y cyhoedd**: Cyhoeddi blaenoriaethau i wella gwaith y sector cyhoeddus ar bob lefel, gyda ffocws ar dosturi, gwella ansawdd, gwerthoedd a rennir a datblygu ymddiriedaeth ar draws y system

# Yr heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu

**Rydym o'r farn bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn wynebu deg prif her, sydd i gyd wedi cael eu gwaethygu gan effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19.**

**Galw:** Bodloni'r gofal cynyddol am ofal, yn arbennig gan bobl ag anghenion cymhleth neu gyflyrau hirdymor, tra'n cynnal llesiant pobl ac atal salwch cyhyd â phosibl. Sicrhau bod gwasanaethau'r GIG yn ailddechrau yn y ffordd fwyaf priodol wrth weithio gyda COVID-19 ac ymateb iddo.

**Gweithlu:** Hybu llesiant staff, cyflwyno ffyrdd ystwyth a gwell o weithio ar gyfer staff a chynllunio gweithlu cynaliadwy a chydnerth i gyd-fynd yn well â galw newidiol a gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno'n fwy digidol. Datblygu rolau a sgiliau staff i ddarparu gofal cymhleth, aml-ddisgyblaethol, cydlynus, aml-ddisgyblaethol mewn partneriaeth ag unigolion, partneriaid sector a chymunedau eraill.

**Ariannol:** Adnabod y pwysau ariannol ar bob rhan o'r system a chael gwerth o bob ceiniog o arian cyhoeddus sydd yn cael ei wario ar iechyd a gofal. Bod yn agored ac yn onest yn y drafodaeth ar lefelau a ffynonellau cyllid yn y dyfodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a chydnabod rôl hanfodol gwasanaethau iechyd mewn economïau a chymunedau lleol.

**Gadael yr UE:** Deall yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach y gallai gadael yr UE ei chael ar iechyd a llesiant y boblogaeth ac ar recriwtio staff iechyd a gofal cymdeithasol rhyngwladol.

**Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol:** Canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth ac yn gydweithredol ar draws pob sector fel bod gofal yn cylchdroi o amgylch anghenion a galluoedd unigolion, teuluoedd a chymunedau. Yr angen am system gofal cymdeithasol gynaliadwy a newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn meddwl am ofal cymdeithasol.

**Iechyd y boblogaeth:** Mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd iechyd a buddsoddi mewn ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i gefnogi a chynnal llesiant pobl ac atal salwch. Grymuso a chefnogi cadernid unigol a chymunedol i addasu ac ymateb i heriau sydd yn effeithio ar iechyd a lles.

**Defnydd effeithiol o dechnoleg a'r digidol:** Defnyddio technoleg i helpu i drosglwyddo gofal a galluogi pobl i gael mynediad at wybodaeth a thriniaeth mewn ffordd sydd yn bodloni eu hanghenion ac yn eu cynorthwyo i gadw'n iach. Lledaenu arloesedd i wella ansawdd, profiadau dinasyddion a chanlyniadau poblogaeth.

**Diwylliant:** Datblygu hyder yn y system iechyd a gofal trwy gyflawni newid sylfaenol mewn diwylliant o'r gwaelod i fyny. Creu GIG mwy agored a thryloyw, sydd yn galluogi staff, cleifion, dinasyddion a chymunedau i fod yn bartneriaid ac yn gyfranogwyr gweithredol mewn penderfyniadau, i wella gofal.

**Dylunio gwasanaethau:** Ailddylunio gwasanaethau i fodloni anghenion newidiol pobl yn well fel bod gwasanaethau'n parhau'n gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu grymuso pobl, datblygu ymagwedd strategol tuag at ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, gwella iechyd meddwl a darparu mwy o ofal yn agosach at y cartref.

**Anghydraddoldebau iechyd:** Gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol i ddeall penderfynyddion iechyd a'u heffeithiau anghymesur ar les corfforol a meddyliol grwpiau daearyddol, economaidd-gymdeithasol ac demograffeg-gymdeithasol penodol yn well.



Mae pawb yng Nghymru eisiau system iechyd a gofal gynaliadwy a hyfyw sydd yn addas ar gyfer y dyfodol.

# Cyflawni

## Rydym yn gofyn bod pob manifesto gan y pleidiau gwleidyddol yn canolbwyntio ar:

# Hybu iechyd:

### Ymrwymo i wella iechyd y boblogaeth gan weithio ar draws sectorau, yn canolbwyntio ar weithredu ataliol a chefnogi ymddygiad ac amgylcheddau iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Amlygodd yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* y ffordd y mae cymdeithas wedi newid yn ddramatig ers creu'r GIG dros 70 mlynedd yn ôl, a'r brif her nawr yw nodi sut gall yr holl sectorau gydweithio i ragweld a mynd i'r afael â'r gofynion ar y system nawr ac i'r dyfodol yn well. Mae gwella iechyd y boblogaeth a chefnogi'r agenda ataliaeth yn brif flaenoriaethau i gyflawni'r newid sydd ei angen ar draws y system gyfan er mwyn sefydlu amgylcheddau sydd yn hybu iechyd ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd holl wasanaethau'r sector cyhoeddus yn parhau i gael rôl i'w chwarae yn creu model ataliol ac ar y cyd mae angen i ni greu'r amgylchedd economaidd, cymdeithasol a naturiol sydd yn cefnogi iechyd a llesiant da yn ystod cwrs bywyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae gwasanaethau ataliol mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol yn ei chael ar ein hiechyd a'n llesiant e.e. canolfannau hamdden, dosbarthiadau addysg i oedolion, cyfleusterau cymunedol ac ati. Mae angen newid adnoddau o drin i atal, er ein bod yn cydnabod anhawster symud buddsoddiad sylweddol i ffwrdd o wasanaethau trin traddodiadol pan mae'r gofynion presennol mor uchel.

Mae Cymru'n wynebu sawl her yn ymwneud ag ymddygiad iechyd sydd yn cyfrannu at lefelau uwch o iechyd a llesiant gwael. Er enghraifft, mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn dal i smygu, mae lefelau uchel o ordewdra, mae gormod o bobl yn yfed uwchlaw'r canllawiau alcohol di-risg, ac mae gan ormod o bobl lefelau gweithgaredd corfforol isel. Mae effaith ymddygiad o'r fath ar ein hiechyd yn arwain at alw cynyddol ar ein gwasanaethau iechyd a gofal. Mae angen i ni gyd-greu newid diwylliannol gyda'r cyhoedd lle'r ydym yn galluogi ac yn cefnogi newid cynaliadwy mewn ymddygiad. Mae gwaith cydweithredol ac integredig ymysg gweithwyr proffesiynol a sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol, yn cynnwys iechyd, llywodraeth leol, addysg a'r amgylchedd, yn allweddol.

Er bod yr ymateb i COVID-19 wedi bod yn flaenoriaeth ers Mawrth 2020, ni allwn ddal yn ôl ar wynebu heriau fel yr argyfwng hinsawdd. Mae'r pandemig wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd oherwydd y gostyngiad mewn teithio wedi ei gynllunio gan achosi sawl rhanbarth ar draws y byd i weld gostyngaid mewn llygredd aer ac allyriadau carbon. Mae'n rhaid i ni ddysgu o'r effeithiau cadarnhaol hyn er mwyn sicrhau bod newid parhaol fydd yn gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.

# Cyhoeddi cynllun gweithredu:

## Cyflwyno modelau gofal cydgysylltiedig yn seiliedig ar anghenion unigolion yn ystod chwe mis cyntaf Llywodraeth newydd.

Nid oes ateb cyflym i'r heriau y mae'r GIG a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, ond mae cyfeiriad cytûn wedi ei nodi yn yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.* Galwodd yr Adolygiad Seneddol am 'chwyldro o'r tu mewn' a chyflwynodd argymhelliad i gael gweledigaeth hirdymor glir a syml o'r ffordd y dylai system ddi-dor, gyda gofal wedi ei drefnu o amgylch yr unigolyn mor agos i'r cartref â phosibl, edrych yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhelliad hwn gefnogaeth pob plaid wleidyddol a chan arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.  Mae'r weledigaeth a nodir yn yr Adolygiad Seneddol, ac a gyflwynwyd trwy Gymru Iachach, yn parhau i gael ei gweithredu a'i chefnogi gan arweinwyr y GIG, gydag 88% o'n haelodau yn cytuno y dylai'r cyfeiriad polisi a'r weledigaeth hirdymor barhau ar ôl 2021.

Mae'n rhaid i ddarparu gofal yn seiliedig ar anghenion unigolion hefyd werthfawrogi iechyd corfforol a meddyliol yn gyfartal, sydd eto wedi cael ei weld yn ystod pandemig COVID-19. Er bod COVID-19 yn cael ei ystyried yn fater iechyd corfforol yn bennaf, mae COVID-19 eisoes yn cael effaith sylweddol ar iechyd medwl pobl, yn cynnwys y gweithlu iechyd a gofal. Rhagwelir y bydd galw cynyddol am wasanaethau iechyd a llesiant dros y misoedd i ddod, wrth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl sydd eisoes yn bodoli a'r cyhoedd yn gyffredinol gael eu heffeithio gan hunanynysu, ansicrwydd ariannol, profedigaeth, a chynnydd mewn cam-drin sylweddau a cham-drin domestig. Mae anghydraddoldebau cymdeithasol presennol hefyd yn debygol o gael eu gwaethygu, gyda grwpiau penodol yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

Yn ogystal, bydd pobl wedi profi amharu a/neu oedi o ran derbyn gwasanaethau GIG o ganlyniad i COVID-19. I fodloni'r anghenion hyn, mae'r GIG a phartneriaid gofal yn meddwl yn arloesol am ailddylunio gwasanaethau i gyflwyno gwasanaethau fel mater o drefn yn y dyfodol. Yn ymarferol, gallai hyn olygu darparu mwy o wasanaethau ar-lein mewn ffordd sydd yn cynorthwyo pobl i gadw eu hannibyniaeth a lleddfu pwysau gormodol ar ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol.

Yn ogystal â COVID-19, bydd Ionawr 2021 hefyd yn garreg filltir am y bydd yn nodi dileu'r DU fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae nifer o effeithiau posibl i wasanaethau iechyd a gofal pan fydd y DU yn gadael yr UE yn cynnwys; mynediad at feddyginiaethau ac offer meddygol; cydweithrediad llawn mewn ymchwil a phrofi triniaethau newydd, yn cynnwys treialon clinigol; cymryd rhan mewn llwyfannau rhannu data allweddol yr UE a systemau rhybuddio at ddibenion diogelwch iechyd y cyhoedd; a recriwtio a chadw'r staff iechyd a gofal sydd eu hangen arnom.

Ar hyn o bryd, mae arweinwyr y GIG ar daith i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal ac mae'n hanfodol bod hyn yn parhau ar ôl yr etholiad. Yn rhy aml, mae negeseuon gan arweinwyr gwleidyddol yn awgrymu y gellir datrys heriau allweddol yn hawdd gydag atebion tymor byr neu newidiadau strwythurol. O ganlyniad i'r Adolygiad Seneddol, mae gan y GIG a gofal cymdeithasol weledigaeth hirdymor sydd eisoes yn nodi cyfeiriad clir ac sydd yn trawsnewid gwasanaethau er mwyn ei gweithredu.



Mae’r GIG yn berchen i ni i gyd, ac fel unigolion, dylem wneud yr hyn y gallwn i sicrhau ei fod yn gynaliadwy.

# Y sgwrs fawr:

## Rhoi rhaglen genedlaethol a strategaeth ymgysylltu ar waith ar draws y Llywodraeth i gynorthwyo'r cyhoedd i fyw bywydau iachach, cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles, rheoli eu cyflyrau a defnyddio gwasanaethau yn gyfrifol.

Mae'n rhaid i gyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal, gan ddatblygu'r berthynas rhwng gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion, fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Mae angen deialog ystyrlon ar frys gyda'r cyhoedd am ddisgwyliadau o ran gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol a'r rôl wahanol y mae angen iddynt ei chwarae. Mae cefnogaeth y cyhoedd yn hanfodol i gyflawni a sicrhau polisi a newid gwasanaethau. Y rhaglenni sydd fwyaf llwyddiannus yn atgyfnerthu cefnogaeth y cyhoedd yw'r rheiny sydd yn gwneud y cyhoedd yn greiddiol i'r broses o wneud penderfyniadau, yn arbennig wrth eu cyfuno, os yw'n briodol, â galluogi deddfwriaeth.

Mae'r berthynas rhwng y GIG a chleifion, eu teuluoedd a'n cymunedau lleol amrywiol mor gryf ag erioed oherwydd ymateb y cyhoedd i bandemig COVID-19. Mae dealltwriaeth y cyhoedd a chefnogaeth i'r GIG wedi bod yn anhygoel, o wnïo masgiau wyneb a siopa i'n cymdogion sydd yn gwarchod, i deimlad gwirioneddol o ddiolchgarwch am yr aberth y mae staff iechyd a gofal yn parhau i'w wneud ar y rheng flaen. Yn ystod y pandemig, cafwyd cyfathrebu parhaus ar draws pob corff sector cyhoeddus, mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau'r GIG yn briodol ac mewn perthynas â chyfraddau cydymffurfio â chanllawiau swyddogol. Mae'r datblygiadau cadarnhaol ar draws y system iechyd a gofal, yn ogystal â'r rhwydweithiau yn y Fforymau Cadernid Lleol, wedi galluogi'r sector cyhoeddus i estyn allan i gymunedau trwy roi gwybodaeth barhaus a sicrhau bod adborth yn cael ei geisio a bod ymateb iddo. Mae ymdrechion y cyhoedd trwy gydol y cyfnod anodd hwn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod yn cynnal hyder, ymddiriedaeth a dealltwriaeth y cyhoedd wrth i ni reoli a darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol.

Mae pandemig COVID-19 yn golygu bod gennym gyfle i ddatblygu cyfathrebu ac ymgysylltu mwy effeithiol gyda'r cyhoedd a chleifion trwy ddatblygu negeseuon holistaidd ar draws y sector cyhoeddus a phartneriaid ehangach yn y trydydd sector a'r sector preifat yn ymwneud ag iechyd y boblogaeth a'r angen i newid gwasanaethau. Yn ogystal, mae iaith ymgysylltu'r cyhoedd (a staff) yn hanesyddol wedi bod yn negyddol yn ymwneud â'r angen i gyflawni effeithlonrwydd ariannol, yn hytrach na'r buddion a'r canlyniadau iechyd y maent yn ymdrechu i'w cyflawni.

Yn ein harolwg, amlygodd arweinwyr y GIG yr angen am gymorth cynyddol yn helpu pobl i wneud dewisiadau iachach ac roeddent o'r farn bod addysg y cyhoedd a gwella llythrennedd iechyd yn ysgogydd effeithiol i gadw pobl yn egnïol, yn iach ac yn eu catrefi eu hunain am fwy o amser. Bydd hyn, i lawer, yn golygu newidiadau sylfaenol i'r ffyrdd y maent yn byw eu bywydau. Mae angen i ni rymuso pobl i fod yn gyfranogwyr gweithredol o ran eu hiechyd.

Mae gofyniad hefyd i gael sgwrs agored a gonest gyda'r cyhoedd am yr hyn y gellir disgwyl i'r GIG ei ddarparu yn y dyfodol. Er bod y GIG am ddim yn y man cyswllt, nid yw'n rhydd o ddyletswydd, a bydd angen i'r cyhoedd gael eu cynorthwyo i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae'r GIG yn berchen i ni i gyd, ac fel unigolion, dylem wneud yr hyn y gallwn i sicrhau ei fod yn gynaliadwy.

# Gofal cymdeithasol:

## Cyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol yn seiliedig ar angen unigolion.

Nid yw'n bosibl ystyried dyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru heb ystyried sut, ac i ba lefel, y dylid ariannu'r system yn y dyfodol. Mae gwariant craidd y GIG bellach yn rhoi cyfrif am ryw 50% o gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru, ond mae angen mwy o gyllid a buddsoddiad er mwyn i ofal cymdeithasol sefydlogi'r gwasanaethau y maent yn gallu eu darparu.

Mae angen i ni weithio tuag at gytundeb bod gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol yn rhyng-ddibynnol. Mae sefydlogrwydd y sector gofal cartref yn hanfodol i'n system iechyd a gofal. Dros y blynyddoedd diweddar, cafwyd pwysau sylweddol o ran gallu a galw am wasanaethau gofal ac mae COVID-19 wedi gwaethygu'r broblem hon. Mae'r pandemig unwaith eto wedi dangos yr angen am setliad newydd ar gyfer gofal cymdeithasol ac wedi amlygu rôl hanfodol y sector yn cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r heriau y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn cynnwys bregusrwydd o ran cyllid a sefydlogrwydd y farchnad, y galw cynyddol ar y sector, angen cynyddol heb ei ddiwallu, materion swyddi gwag, cynlluniau wrth gefn a'r angen am safonau a mesurau ansawdd cyson rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae angen cynyddol hefyd i ddarparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer y rheiny sydd wedi cael Coronafeirws sydd angen gofal cymdeithasol a/neu driniaeth seicolegol. Fodd bynnag, bydd nifer sylweddol o bobl hefyd fydd angen triniaeth adsefydlu oherwydd misoedd o hunanynysu ac unigrwydd, ac o ran cymorth iechyd meddwl. Bydd yr anghenion hyn yn dod i'r amlwg mewn ffordd wahanol ar draws poblogaeth cleifion COVID-19, a'r cyhoedd ehangach, a bydd angen ymyrraeth arnynt ar draws y system iechyd a gofal gyfan.

Dylid ehangu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i fodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a nifer gynyddol o oedolion iau sydd yn byw gydag anableddau. Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 59% o arweinwyr y GIG o'r farn y dylai gofal cymdeithasol fod am ddim pan mae ei angen, gyda dim ond 18% yn anghytuno. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gynllun cynhwysfawr a chynaliadwy i ddiwygio cyllid a chyflenwi gofal cymdeithasol. Dylid integreiddio'r ymateb a dylai ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniad pwysicaf i ddefnyddiwr y gwasanaeth ym mhob achos.

Fe wnaethom groesawu'r alwad yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a *Strategaeth* Gofal Cymdeithasol Cymriu am barch cydradd rhwng y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hanfodol i gyflawni gweithlu cynaliadwy sydd wedi ei hyfforddi'n dda ac mae angen mwy o waith ar bob lefel i farchnata gofal cymdeithasol fel rhagolwg o yrfa ddeniadol.

# Gwasanaethau cyhoeddus integredig:

## Cyflwyno arolygu ar y cyd, cyfundrefnau rheoliadol a threfniadau llywodraethu i gynorthwyo'r broses ranbarthol a chenedlaethol o wneud penderfyniadau i ysgogi newid ar draws y sector.

I gyflawni'r weledigaeth hirdymor, mae'n rhaid i ni rymuso'r sector cyhoeddus cyfan i'w galluogi i weithio'n ddi-dor ar draws ffiniau sefydliadol, gan sicrhau bod strwythur llywodraethu, arweinyddiaeth, mesurau canlyniad a chymorth ariannol di-dor ac ystwyth yn cael eu darparu.

Mewn ymateb i COVID-19, mae sefydliadau wedi gweithio'n gyflym i drawsnewid gwasanaethau a chyflwyno gofal yn arloesol, wedi eu galluogi yn aml gan waith partneriaeth effeithiol a thrwy ymateb yn wahanol i risg i ddarparu'r gofal gorau ar gyfer dinasyddion. Nawr yw'r amser iawn i rymuso systemau iechyd a gofal i ysgogi newid, gyda mwy o eglurder am y ffordd y gallwn gyflwyno 'system ddiofyn' mewn ffyrdd sydd yn cefnogi partneriaethau a gwasanaethau integredig. Wrth i'r system iechyd a gofal symud ymlaen a meddwl mewn ffordd fwy systematig am iechyd y boblogaeth, mae'n rhaid i ni ddysgu o ymarfer sydd yn dod i'r amlwg a'r ffordd y dylem ailffurfio modelau llywodraethu a rheoliadol i gyd-fynd â thrawsnewid gwasanaeth a sicrhau bod gennym ddiwylliant mwy ystwyth, wedi ei arwain yn glinigol, sydd yn canolbwyntio ar gleifion yr ydym wedi ei weld yn datblygu mewn ymateb i COVID-19 trwy ailddylunio gwasanaethau yn gyflym.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae heriau o ran trefniadau llywodraethu yn ymwneud â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) am nad ydynt yn endidau cyfreithiol. Er gwaethaf hyn, mae penderfyniadau strategol allweddol, yn arbennig yn ymwneud â chyllid, yn cael eu gwneud gan BPRhau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol ar rai sefydliadau partner yn y BPRh i gadarnhau gyda'u sefydliad unigol a ydynt yn ariannu'r prosiectau strategol y cytunwyd arnynt gan y BPRh neu beidio. Yn ogystal, mae angen eglurder pellach yn ymwneud â'r berthynas rhwng BPRhau a BGCau, er mwyn iddynt weithio mewn ffordd rhyng-gysylltiedig a chydgysylltiedig.

Trwy gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio mewn ffordd fwy integredig ac mae'n bwysig bod un sefydliad yn cynrychioli llais y dinesydd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd trefniant diwygiedig llais y dinesydd trwy Gorff Llais y Dinesydd, a gyflwynwyd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, yn rhoi mwy o sicrwydd a'r ysgogiad i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r cyhoedd,  gweithio mewn partneriaeth i gasglu safbwyntiau, cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau a chynrychioli buddiannau pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau'r GIG a/neu ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn olaf, byddai system fwy cadarn a chyson o arolygu'n cael ei chroesawu er mwyn i'r cyhoedd gael sicrwydd gwell o ansawdd a diogelwch gwasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cymorth i Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC) gael ei integreiddio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ffurfio corff arolygiaeth newydd.

# Mesur perfformiad:

## Cyflwyno mesurau perfformiad sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ataliaeth, gwasanaethau cymunedol a chydweithredu ar draws system gyfan, yn seiliedig ar ansawdd.

Mae targedau presennol y GIG yn canlbwyntio'n rhy benodol ar ofal aciwt ac eilaidd ac nid ydynt bob amser yn cynorthwyo'r system i dyfu ac ailddylunio, fel symud gwasanaethau i ofal sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau ataliol. Mewn ymateb i'n harolwg, dim ond 10% o arweinwyr y GIG oedd yn credu bod y mesurau perfformiad presennol (targedau haen 1) yn fesuriadau digonol o iechyd a llesiant a phrofiad cleifion.

Er bod gan dargedau rôl i'w chwarae, mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar y darlun cyflawn, gan gychwyn newid system gyfan o ran y ffordd y mae triniaeth yn cael ei chyflwyno, y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac iechyd y boblogaeth yn cael ei fesur. Ysgogwr allweddol yn hyn o beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n nodi'r ffordd y mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd i atal anghydraddoldebau parhaus a mynd i'r afael â materion fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Fodd bynnag, er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth ymhellach, mae'n hanfodol bod mesurau a fframweithiau ystyrlon, sydd yn canolbwyntio ar y person, yn cael eu datblygu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn canolbwyntio ar brofiad cleifion, canlyniadau clinigol, ataliaeth, cydweithredu ar draws system gyfan a chymhwyso gofal iechyd yn seiliedig ar werth (sydd yn cyflwyno canlyniadau sydd bwysicaf i gleifion am yr un gost neu am gost is).

Mae COVID-19, a'r ymagwedd tuag at reoli'r pandemig, wedi dangos anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli yn ogystal â'u gweithygu. Yn ystod COVID-19, yr hyn sydd wedi peri pryder penodol yw'r effaith ar boblogaethau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan y feirws ac sydd wedi profi cyfraddau marwolaeth uwch. Wrth adfer gwasanaethau ac ailosod y GIG, mae cyfle i ddysgu sut mae unigolion, teuluoedd a chymunedau wedi cael eu heffeithio gan y pandemig ac i symud i ymagwedd yn seiliedig ar boblogaeth o ran cynllunio a dylunio gwasanaethau a mesur canlyniadau.



Er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth ymhellach, mae'n hanfodol bod mesurau a fframweithiau ystyrlon, sydd yn canolbwyntio ar y person, yn cael eu datblygu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

# Cynllunio'r gweithlu:

## Darparu gweithlu aml-broffesiynol, wedi eu galluogi'n ddigidol, sydd wedi eu hysgogi, eu hymgysylltu ac sydd yn cael eu gwerthfawrogi ac y mae eu llesiant yn cael ei flaenoriaethu a'i hybu.

Y GIG yw cyflogwr mwyaf Cymru, yn cyflogi dros 92,000 o bobl ar hyn o bryd, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr economïau cenedlaethol a lleol. Mae cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i boblogaeth Cymru yn gwbl ddibynnol ar ein gweithlu sydd yn gweithio mewn ystod o wasanaethau darparwyr statudol, preifat a gwirfoddol. Hebddynt, ni fyddai gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd uchel yn gallu cael eu darparu.

Mae'r gweithlu iechyd a gofal yn greiddiol i'r ffordd yr ydym yn cyflwyno gofal a gwasanaethau i gleifion a'u teuluoedd. Yn ystod pandemig COVID-19, mae eu gwaith caled a'u hymroddiad wedi amlygu'r graddau y cânt eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd, ond mae hefyd wedi amlygu nifer o faterion sylfaenol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.

Hyd yn oed cyn pandemig COVID-19 a diwedd gallu gwladolion yr UE/DU i symud yn rhydd, roedd y gweithlu'n cael ei ystyried yn eang fel yr her fwyaf y mae'r GIG yn ei hwynebu. Gan ymateb i arolwg yr etholiad, dywedodd arweinwyr y GIG mai recriwtio, cadw a gallu gweithlu'r GIG yw'r brif her y mae'r GIG yng Nghymru'n ei hwynebu dros y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal, roedd arweinwyr y GIG yn credu mai prinder staff ac argaeledd gweithlu medrus y GIG oedd y prif rwystr oedd yn atal sefydliadau'r GIG rhag mynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu, gyda baich gwaith staff a gallu yn drydydd prif rwystr i alluogi newid gwasanaethau. Gallai cynigion mewnfudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol, fydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2021, ychwanegu heriau ychwanegol i recriwtio staff iechyd a gofal cymdeithasol hefyd. Bydd system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau yn dod â gallu gwladolion yr UE/Ardal Economaidd Ewrop i symud yn rhydd a gallu'r GIG a gofal cymdeithasol Cymru i recriwtio a chadw'r doniau rhyngwladol sydd mor werthfawr iddynt, i ben.

Mae Strategaeth AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru a lansiwyd yn ddiweddar, wedi ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â GIG Cymru, Llywodraeth Leol, gwasanaethau darparwyr preifat a gwirfoddol, yn nodi'r ymagweddau sydd eu hangen i wneud llesiant yn greiddiol i gynlluniau ar gyfer y gweithlu.  Elfen graidd yw cyflwyno gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynhwysol, ymgysylltiedig, cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol. Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i gefnogi'r Strategaeth a'r uchelgais y mae'n ei chyflwyno.

Mae hyn yn golygu y bydd gennym weithlu:

- Gyda'r gwerthoedd, ymddygiad, gwybodaeth, sgiliau a'r hyder cywir i gyflwyno gofal yn seiliedig ar dystiolaeth, a chefnogi llesiant pobl mor agos i'r cartref â phosibl;
- Mewn niferoedd digonol i allu cyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol ymatebol sydd yn bodloni anghenion pobl Cymru;
- Sydd yn adlewyrchu amrywiaeth, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y boblogaeth, ac
- Sydd yn werthfawr ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

Ein huchelgais, erbyn 2030, yw cyflawni model gweithlu amlbroffesiynol ac amlasiantaeth. Y tu hwnt i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau galwedigaethau eraill i gefnogi llesiant poblogaeth Cymru. Mae gan unigolion sydd yn gweithio mewn cymunedau lleol, fel gweithwyr post, athrawon, pobl trin gwallt, gwirfoddolwyr a chynorthwywyr mewn siopau, i gyd rôl weithredol yn cynorthwyo cymunedau i gadw'n iach ac yn gysylltiedig.

# Gweledigaeth a rennir ar gyfer y digidol a thechnoleg:

## Cyfwyno technoleg ac arloesi newydd i gynorthwyo cynhwysiant, newid gwasanaethau a gwella ansawdd data ar draws y system.

Fel yr amlygwyd yn yr ymateb i COVID-19, mae'n rhaid i'r system iechyd a gofal barhau i gynyddu potensial strategol a gweithredol technoleg ddigidol fel galluogwr newid. Dylai technoleg ddigidol gael ei hystyried fel un o'r offer strategol mwyaf arwyddocaol sydd ar gael i ni ar gyfer newid i fodel ataliol newydd o iechyd a gofal.

Hyd yn oed wrth wynebu pwysau sylweddol sy'n cael ei roi ar y GIG a'r gwasanaethau gofal gan COVID-19, mae'r GIG wedi gwthio trawsnewidiadau drwodd ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae cyflwyno'r gwasanaeth 111 i bob rhan o Gymru ar ddechrau'r pandemig, datblygiad nad oedd i fod cael ei gyflwyno'n llawn nes Ebrill 2021, wedi cynyddu mynediad at wasanaethau priodol, gan gyfeirio cleifion i'r lle iawn, ar yr adeg iawn. Mewn gofal sylfaenol, dechreuodd meddygfeydd gyflwyno apwyntiadau rhithiol i gleifion er mwyn cyflwyno gofal a chyngor hanfodol, nid yn unig ar gyfer cleifion COVID-19 posibl, ond hefyd i gadw gwasanaethau pwysig eraill yn rhedeg yn barhaus, yn arbennig ar gyfer y rheiny sydd yn byw gyda chyflyrau hirdymor.  Mae'n rhaid i ni ychwanegu at y datblygiadau sydd wedi eu sefydlu yn ystod COVID-19 a defnyddio'r ymgysylltu digidol cynyddol y mae'r pandemig wedi ei wneud yn angenrheidiol, yn arbennig ymysg y rheiny nad oedd yn ymgysylltu'n ddigidol yn y gorffennol.

Mae technoleg ddigidol yn gyfle gwych i ymgysylltu'n agosach â'r cyhoedd a chleifion, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ryngweithiol i gefnogi hunan-ofal. Mae angen i'n gweithlu gael eu cynorthwyo i gyflwyno gofal gan ddefnyddio sgiliau digidol i reoli baich gwaith ac achosion yn fwy effeithiol a dylai'r Gymraeg gyd-fynd ag agweddau newydd o gyflwyno gwasanaethau.

Mae technoleg hefyd yn chwarae rôl allweddol yn gwella gofal a gwneud penderfyniadau gwybodus. Gall gynorthwyo staff i gael y wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau gwell, trwy argaeledd data, ac i ddarparu gofal cyflymach, mwy diogel. Mae'n galluogi staff mewn lleoliadau gwahanol a dinasyddion i rannu cynlluniau gofal fel bod unigolion sydd angen gofal yn cael gwasanaeth cydgysylltiedig, a bod cleifion a gofalwyr di-dâl yn cael y wybodaeth angenrheidiol i gael eu grymuso a'u cynnwys i gadw'n iach a chael y gofal iawn yn y lle iawn ar gyfer eu hanghenion unigol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau bod technoleg yn hygyrch i bawb, heb unrhyw rwystr o ran cyfartal, a'i fod yn atal ynysu digidol.  Nid oes gan bawb y sgiliau i ddefnyddio technoleg ac mae'n rhaid i gymorth fod ar gael i bobl. Gellir gwneud hyn trwy weithio gyda phartneriaid mewn addysg ac yn y gymuned i hybu sgiliau digidol ac atal pobl rhag bod o dan fwy o anfantais. Mae cynyddu hyder pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol hefyd yn cefnogi'r GIG am ei fod yn galluogi nifer gynyddol o bobl i gael mynediad at wasanaethau hanfodol yn eu cartrefi.  Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r system barhau i ailosod gwasanaethau ar ôl COVID-19. Mae'n rhaid hefyd cymryd gofal i leihau canlyniadau anfwriadol, fel cynnydd mewn unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.  Ni all technoleg gymryd lle'r angen am gyswllt a chymorth dynol uniongyrchol, yn arbennig ar gyfer pobl sydd yn agored i niwed.

# Fframwaith adnoddau:

## Datblygu cynllun buddsoddi 5 mlynedd mewn newid gwasanaeth i ailffurfio ystadau ac isadeiledd y GIG, gan eu gwneud yn fwy cynaliadwy, lleihau allyriadau carbon a chynyddu asedau cyhoeddus.

Er bod y cynnydd diweddar mewn cyllid wedi cael ei groesawu, mae'r cyllid yn dal yn eithriadol o gyfyng. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir wrth i'r galw ar y GIG a gofal cymdeithasol gynyddu, wrth i gostau darparu gofal gynyddu ac effaith dirwasgiad economaidd ar ôl COVID-19 gael eu teimlo gan gymunedau Cymru. Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i gael ymrwymiad hirdymor i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer iechyd a gofal, yn cynnwys cynllun i ailffurfio ystadau ac isadeiledd y GIG.

Er mwyn grymuso a thrawsnewid y system, mae buddsoddi yn ystadau'r GIG yn allweddol. Yn arolwg yr etholiad, dywedodd arweinwyr y GIG mai'r her ariannol fwyaf yw datblygu a chynnal a chadw ystâd y GIG. Cafodd llawer o ysbytai yng Nghymru eu hadeiladu yn y 1960au neu'n gynt. Er bod buddsoddi sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd mewn rhai ardaloedd o Gymru, yn cynnwys Ysbyty Athrofaol y Faenor ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae ystadau'r GIG yn aml mewn cyflwr gwael, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i ddod â hen adeiladau i fyny i safonau modern, yn cynnwys eu gwneud yn effeithlon o ran ynni, a gwella profiad cleifion ac ansawdd gofal cleifion.

Mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar ystadau'r GIG, mae adeiladau a dyluniad llawer o ysbytai yn eu gwneud yn amharod ar gyfer y math o reoli heintiau sydd ei angen, yr angen i wahanu cleifion COVID-19 a rhai nad ydynt yn rhai COVID-19 ac i gleifion a staff barhau i gadw pellter cymdeithasol. Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod sefydliadau'r GIG yn wynebu cyfyngiadau gallu ar draws yr holl wasanaethau, gydag ysbytai, er enghraifft, yn gorfod rhedeg ar gyfraddau deiliadaeth llawer is nag arfer wrth i wasanaethau gael eu hailfodelu i ymdrin ag effaith barhaus COVID-19. Fodd bynnag, gallai cyfleoedd a gyflwynir gan waith digidol a rhithiol olygu ailwerthuso ystadau'r GIG a'r ffordd y mae'r GIG yn ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol e.e. trwy feithrin gweithio ystwyth ymhellach a mwy o apwyntiadau iechyd dros y ffôn ac yn ddigidol rhwng staff iechyd a gofal a chleifion/defnyddwyr y gwasanaeth.

Rhagwelir hefyd y bydd pandemig COVID-19 yn gadael dirywiad cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol. Mae gan wasanaethau iechyd rôl hanfodol i'w chwarae yn adferiad ehangach ac ailadeiladu economïau a chymunedau lleol – gan gynyddu ffyniant a chyfrannu at iechyd a llesiant y boblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys trawsnewid cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfnod o amharu economaidd a chymdeithasol digynsail a gwthio'r GIG i ddeall ei effaith, ei werth a'i gyfrifoldeb fel sefydliad angori lleol (sefydliad mawr y mae ei gynaliadwyedd hirdymor yn gaeth i lesiant y boblogaeth trwy fod yn un o gyflogwyr mwyaf mewn ardaloedd lleol, prynwr allweddol nwyddau a gwasanaethau, a deiliad a datblygwr ystâd cyfalaf). Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau hyn a darparu'r buddsoddiad angenrheidiol yn y GIG, y sector cyhoeddus ehangach a chymunedau yn gyffredinol, i gefnogi adferiad a chyflawni dyfodol mwy cynaliadwy.

# Sector cyhoeddus ar gyfer y cyhoedd:

## Cyhoeddi blaenoriaethau i wella gwaith y sector cyhoeddus ar bob lefel, gyda ffocws ar dosturi, gwella ansawdd, gwerthoedd a rennir ac ymddiriedaeth ar draws y system.

Er mwyn i'r GIG fodloni'r heriau sydd o'n blaenau, mae'n hanfodol bod gweithio mewn partneriaeth ar draws pob sector yn cael ei ddatblygu ymhellach i greu a galluogi ffordd o fyw iachach a datblygu gwasanaeth sydd yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn arwain y ffordd yn cyflwyno'r gofal a thriniaethau o ansawdd gorau. Gyda thros 80% o'n hiechyd a'n llesiant cyffredinol yn cael eu dylanwadu gan wasanaethau y tu hwnt i'r GIG, mae cyfle nawr i ailosod y perthnasoedd hyn ac ystyried y GIG, llywodraeth leol, y sectorau preifat a gwirfoddol, a sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol fe partneriaid cyfartal i gynorthwyo pobl i gadw'n iach yn well, a lle y bo'n briodol, rheoli eu cyflyrau yn well. Mae'n rhaid i ni fynd â modelau gofal cydgysylltiedig i'r lefel nesaf.

Mae COVID-19 wedi arwain at chwalu rwystrau traddodiadol i waith traws-sector, ac mae'n rhaid i ni beidio caniatáu i'r rhwystrau hynny gael eu hailadeiladu yn y dyfodol. Yn ein harolwg, dywedodd arweinwyr y GIG eu bod eisiau gweld Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi cynllun i wella gwaith partneriaeth ar draws pob sector, gydag arweinyddiaeth dosturiol yn brif ffocws.

Elfen allweddol i bawb sydd yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd a gofal yw deall anghenion unigolion a gwneud pobl yn greiddiol i'n gweledigaeth, sydd yn gofyn am integreiddio. Mae'n ymwneud â chael pob rhan o'r system i gydweithio fel bod y claf/defnyddiwr y gwasanaeth yn cael gofal prydlon, effeithlon ac effeithiol gyda'r canlyniad iawn iddyn nhw. Mae gwasanaethau integredig, di-dor yn arwain at fodlonrwydd defnyddiwr gwell, canlyniadau gwell a phan gânt eu gweithredu'n effeithiol, yn gwneud defnydd gwell o adnoddau.

Mewn ymateb i arolwg yr etholiad, amlygodd arweinwyr y GIG fecanweithiau cyllid cystadleuol, natur wleidyddol y system iechyd a gofal, trefniadau craffu ac atebolrwydd gwahanol, a diwylliant fel y prif rwystrau i gyflawni gwasanaethau integredig effeithiol yng Nghymru.

Er bod y system iechyd a gofal yn gymhleth, oherwydd ei maint, ei strwythur a pherthnasoedd gwaith cryf, mae digonedd o dystiolaeth i awgrymu bod gan Gymru gyfle euraidd i gyflawni cymaint o ran dylunio a chyflwyno gwasanaethau integredig sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd. Er enghraifft, mae'r fframwaith deddfwriaethol, yn arbennig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn golygu bod Cymru mewn lle da i wneud anghenion pobl yn greiddiol i'r broses o wneud penderfyniadau, cynorthwyo pobl i gynnal eu llesiant corfforol ac emosiynol eu hunain, hybu'r defnydd o ymagweddau ataliol a gweithio'n gydweithredol ar draws pob sector i gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf iddyn nhw.

Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol ar draws y sector cyhoeddus, a chyda sectorau eraill, fydd yn denu, yn cefnogi'n barhaus ac yn datblygu gweithlu hyblyg ac ystwyth.

# Conffederasiwn GIG Cymru

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud:

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r unig gorff aelodaeth cenedlaethol sydd yn cynrychioli'r holl sefydliadau sydd yn ffurfio'r GIG yng Nghymru: saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Rydym hefyd yn rhan o Gonffederasiwn y GIG ac yn cynnal Cyflogwyr GIG Cymru.

Fel llais cydnabyddedig arweinyddiaeth y GIG yng Nghymru, rydym yn hyrwyddo'r system iechyd a gofal trwy gryfder ein haelodau ar y cyd. Rydym mewn sefyllfa unigryw i weithio ar lefel genedlaethol gyda'n haelodau a'n partneriaid i'w helpu i fynd i'r afael â heriau presennol a ffurfio'r system iechyd a gofal yn y dyfodol yng Nghymru.

### Ein tair blaenoriaeth yw:

- Cefnogi ein haelodau
- Hwyluso arweinyddiaeth system
- Cynrychioli ein haelodau

### Ein haelodau yw:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Conffederasiwn GIG Cymru**
Tŷ Phoenix, 8 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9LJ
**02920 349 850**
Medi 2020

Dilynwch ni ar Twitter: **@welshconfed**
Ewch i'n gwefan yn **www.welshconfed.org**
Ebost: Nesta.Lloyd-Jones@welshconfed.org

**Rhif Elusen Gofrestredig: 1090329**